Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad o ymweliad
# Lefel y dilyniant: Monitro gan Estyn

# Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Castell-nedd Port Talbot

## Dyddiad yr ymweliad: Hydref 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Steve Bell | Arolygydd Cofnodol |
| Liam Kealy | Arolygydd Tîm |
| Penny Lewis | Arolygydd Tîm |
| Alun Connick | Arolygydd Tîm |
| Kevern Kerswell | Arolygydd Cymheiriaid |

## Canlyniad yr ymweliad monitro

Bernir bod partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Castell-nedd Port Talbot wedi gwneud cynnydd digonol o ran yr argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yn Nhachwedd 2012.

Bydd Estyn yn cynnal ymweliad monitro pellach yn dilyn cyhoeddi adroddiadau deilliannau dysgwyr ar gyfer 2013-2014. Bydd arolygwyr Estyn yn parhau i ymweld â'r bartneriaeth yn ystod y cyfnod cyfamserol i barhau i oruchwylio cynnydd.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Gwella cyfraddau cwblhau llwyddiannus pob dysgwr a gwneud yn siŵr bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd da

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae data cyhoeddedig yn dangos bod dysgwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot, yn 2012-2013, wedi cyflawni cyfraddau llwyddo is nag oedolion sy'n dysgu yn y gymuned mewn rhannau eraill o Gymru. Fe wnaeth cyfraddau llwyddo dysgwyr ddirywio chwe phwynt canran ers 2010-2011.

Yn 2012-2013, amrywiodd cyfraddau llwyddo dysgwyr o 87% i 67% ar draws y darparwyr yn y bartneriaeth. Er enghraifft, fe wnaeth dysgwyr yn y coleg, sy'n darparu ychydig dros hanner yr holl weithgareddau dysgu, gyflawni cyfraddau llwyddiant ychydig yn uwch na chyfraddau oedolion eraill sy'n dysgu yn y gymuned mewn sefydliadau addysg bellach ar draws Cymru. Ar draws amrywiaeth o bynciau, cyflawnodd llawer o ddysgwyr yn y coleg gyfraddau llwyddiant gerllaw neu uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Fodd bynnag, cyflawnodd dysgwyr mewn darpariaeth wedi'i breinio gan y bartneriaeth (tua chwarter yr holl weithgareddau dysgu) ar gyfradd ychydig islaw'r cymharydd cenedlaethol. Mae dadansoddiad y bartneriaeth ei hun o ddeilliannau dysgwyr yn dangos tuedd sy'n amrywio er 2010-2011, ar draws pob dull cyflwyno.

Mae data'r bartneriaeth ei hun ar gyfer 2013-2014, sydd heb ei gyhoeddi, yn dangos cynnydd yn y gyfradd lwyddo gyffredinol ar gyfer y ddarpariaeth a gyflwynir yn uniongyrchol gan y coleg a'r ddarpariaeth wedi'i breinio. Fodd bynnag, megis dechrau y mae'r broses o gysoni'r data.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu.

Mae dysgwyr mewn dosbarthiadau galw heibio ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn defnyddio cyrsiau hunanastudio yn dda i wella'u medrau TGCh. Gwnânt ddefnydd da o TGCh y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn eu bywydau bob dydd, i gadw mewn cysylltiad ag aelodau'r teulu a rhannu syniadau, ac i ymgymryd â gwaith gweinyddol personol.

Gwna dysgwyr mewn dosbarthiadau Dychwelyd i Ddysgu gynnydd da. Maent yn llwyddo i gyflawni ystod o gymwysterau a datblygu medrau newydd sy'n eu helpu nhw yn eu bywydau y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Maent wedi gwella'u rhagolygon

o ran gwaith a'u gallu i helpu eu plant i ddysgu.  Mae dysgwyr mewn dosbarthiadau Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE) yn gwella'u dealltwriaeth a'u defnydd o ramadeg, eu sillafu a'u hatalnodi, ac yn gallu cynnal sgyrsiau estynedig yn Saesneg yn well.

O ganlyniad, mae mwy o allu gan ddysgwyr ar draws y bartneriaeth i ymgymryd â rolau gwirfoddoli yn eu cymuned, gweithredu'n gynrychiolwyr dysgwyr neu sefydlu busnesau bach.  Mae llawer yn symud ymlaen i ddysgu pellach.

Ers yr arolygiad, mae'r bartneriaeth wedi rhoi cymorth da i ddysgwyr sydd wedi bod yn ymgymryd â dosbarthiadau ers sawl blwyddyn er mwyn eu helpu i greu grwpiau dysgu hunangyfeiriedig.  Mae'r bartneriaeth wedi helpu 38 o gyrsiau i droi'n glybiau, gan gynnwys clybiau Gwneud Cardiau Cyfarch, Crefft Siwgr, Cerddoriaeth a Gitâr. Mae partneriaid, gan gynnwys yr awdurdod lleol a'r Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol, wedi helpu'r grwpiau hun i sefydlu a rheoli dysgu drostynt eu hunain.  O ganlyniad, mae'r dysgwyr hyn yn gallu parhau i wneud cynnydd a datblygu medrau a gwybodaeth am y pwnc.

**Argymhellion 2:  Gwella ansawdd addysgu ar draws y bartneriaeth**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae ansawdd yr addysgu ar draws y bartneriaeth wedi gwella.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r bartneriaeth wedi rhoi hyfforddiant effeithiol i diwtoriaid ar ansawdd yr addysgu a'r asesu y mae'n ei ddisgwyl.

Bellach, mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio'r wybodaeth am anghenion dysgwyr yn dda i'w helpu i gynllunio sesiynau ystyriol sy'n bodloni ystod yr anghenion dysgu yn eu dosbarthiadau yn briodol.  At ei gilydd, mae cyflymder y sesiynau yn dda.

Mewn llawer o'r sesiynau mwyaf effeithiol, mae tiwtoriaid yn cynllunio ystod dda o weithgareddau sy'n ennyn diddordeb dysgwyr mewn gwaith pâr, grŵp ac annibynnol. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cynllunio gwaith sy'n herio dysgwyr yn briodol. Defnyddiant holi yn effeithiol i helpu dysgwyr i ddatblygu ac ymestyn eu meddwl.  Yn ogystal â datblygu gwybodaeth bwnc dysgwyr, mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn helpu dysgwyr i ddatblygu'u medrau academaidd fesul cam, gan dalu sylw da at ei gilydd i fedrau llythrennedd a rhifedd fel y bo'n briodol i'r pwnc.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn marcio gwaith yn rheolaidd yn unol â'r meini prawf asesu ar gyfer y cwrs.  Gan amlaf, mae tiwtoriaid yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig adeiladol i ddysgwyr.  Mewn sawl achos, mae tiwtoriaid yn rhoi targedau clir i helpu dysgwyr wneud y camau nesaf yn eu dysgu.  Fodd bynnag, mae marcio camgymeriadau llythrennedd a rhifedd dysgwyr yn anghyson ar draws y bartneriaeth.

Mae'r bartneriaeth wedi cydweithio'n effeithiol iawn i gytuno ar system gyffredin newydd o arsylwadau gwersi.  Mae arsylwadau'n canolbwyntio ar themâu penodol, gan gynnwys pa mor dda y mae llythrennedd a rhifedd wedi'u hymgorffori mewn sesiynau.  Yn ogystal, mae'r bartneriaeth wedi cyflwyno system electronig i gofnodi

deilliannau arsylwadau.  Mae hyn yn effeithiol o ran helpu arweinwyr i ddarparu datblygiad proffesiynol sy'n cyd-fynd yn agos ag anghenion tiwtoriaid.  Mae hyn yn dechrau cael effaith dda ar godi ansawdd addysgu ac asesu.

**Argymhelliad 3:  Gwella pa mor dda y mae tiwtoriaid yn defnyddio cynlluniau dysgu unigol i gynllunio dysgu, gosod targedau realistig a monitro cynnydd**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r bartneriaeth wedi cynnal adolygiad defnyddiol o'r defnydd ar gynlluniau dysgu unigol.  Mae wedi rhoi hyfforddiant effeithiol i diwtoriaid ar ei disgwyliadau o ran defnyddio cynlluniau dysgu unigol i helpu dysgwyr i gyflawni eu nodau.

Mae'r bartneriaeth wedi ailgynllunio fformat y cynllun dysgu unigol fel ei fod yn haws ei ddefnyddio.  Mae'r fformat yn helpu dysgwyr i fyfyrio'n gliriach ar eu nod tymor byrrach a thymor hwy.  Mae cofnod dysgu yn galluogi dysgwyr i gofnodi cynnydd wythnosol a thargedau byrdymor.  Mae'r cynllun dysgu unigol a'r cofnod dysgu yn helpu tiwtoriaid i fonitro cynnydd dysgwyr yn rheolaidd.  Mae'r bartneriaeth wedi cyflwyno pwyntiau adolygu clir mewn cyrsiau pan fydd tiwtoriaid a dysgwyr yn ystyried cynnydd dysgwyr gyda'i gilydd.

Mae'r bartneriaeth yn cynnig sesiwn ychwanegol i'r rhan fwyaf o gyrsiau i sicrhau bod dysgwyr yn gallu defnyddio'r cynllun dysgu unigol yn effeithiol fel offeryn cynllunio.  Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio sesiwn gyntaf y cwrs yn effeithiol i ddysgu am gefndiroedd addysgol, anghenion personol a dysgu, a dyheadau dysgwyr.  O ganlyniad, mae mwy o allu gan diwtoriaid i gyfeirio dysgwyr at y cymorth ychwanegol y mae ei angen arnynt yn fuan.

Mae defnydd dysgwyr ar gynlluniau unigol wedi gwella at ei gilydd, ond mae ansawdd cynlluniau dysgu unigol yn amrywio o hyd.  Pan fydd dysgwyr wedi datblygu medrau myfyrio da, defnyddiant eu cynllun dysgu unigol yn effeithiol i'w helpu i ddilyn eu cynnydd gydag amser.  Mae'r cynlluniau dysgu hyn yn dangos yn fanwl y camau y mae angen i ddysgwyr eu cymryd i wella'u dysgu a chyrraedd eu nodau.  Fodd bynnag, yn achos dysgwyr sydd megis dechrau datblygu eu medrau myfyrio, mae targedau wythnosol a osodir gan diwtoriaid yn aml yn rhy fras ac nid ydynt yn datgan yn benodol beth y mae angen i'r dysgwr ei wneud fel cam nesaf.

Mae'r bartneriaeth wedi cynnal archwiliad defnyddiol o gynlluniau dysgu unigol, sydd wedi nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu.  Mae monitro cynlluniau dysgu unigol yn rhan reolaidd o arsylwadau erbyn hyn.  Mewn ychydig achosion, mae rheolwyr yn monitro cynlluniau dysgu unigol dysgwyr yn eu maes a rhoddant adborth defnyddiol fel y gall tiwtoriaid helpu dysgwyr i wella'u medrau myfyrio a gosod targedau yn well.

**Argymhelliad 4:  Gwella'r defnydd o wybodaeth am reoli perfformiad i godi'r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr ac i arfarnu pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn cyflawni ei blaenoriaethau ac yn rhoi gwerth am arian**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r bartneriaeth wedi nodi a chefnogi 38 o grwpiau yn dda i ddatblygu yn glybiau, gan alluogi'r bartneriaeth i ganolbwyntio'i chyllid yn well ar ddarpariaeth sy'n cyd-fynd

â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, y farchnad lafur ac anghenion cymunedau. Mae cynrychiolaeth dda o blith y trydydd sector yn y bartneriaeth ac mae cysylltiad cadarn â darparwyr Cymunedau yn Gyntaf.

Mae'r bartneriaeth wrthi'n diweddaru ei chynllun strategol. Mae ganddi ymwybyddiaeth dda o flaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, ond nid yw'n ymgorffori'r blaenoriaethau hyn yn ddigon agored yn ei chynllun strategol. Mae partneriaid yn cydnabod yr angen i gysylltu dysgu oedolion yn y gymuned â gwella cyflogadwyedd dysgwyr a lleihau tlodi, ond nid yw'r gyrwyr pwysig hyn wedi'u cynnwys eto fel blaenoriaeth benodol yn y cynllun strategol. Dyma gyfle coll i sicrhau bod data priodol yn cael ei gasglu a'i ddadansoddi i arfarnu effaith y ddarpariaeth.

Mae'r bartneriaeth wedi gwella'i dealltwriaeth o ddeilliannau dysgwyr ar draws pob darparwr. Mae wedi gwneud cynnydd da yn adolygu ei systemau ar gyfer casglu data. Mae wedi gwneud cyfraniad da at ddatblygu porth ar y rhyngrwyd sy'n galluogi tiwtoriaid i gofnodi ystod dda o ddata am ddysgwyr yn uniongyrchol o ganolfannau neu leoliadau o bell. Mae'r porth eisoes wedi galluogi partneriaid i reoli nifer y dysgwyr ar gyrsiau yn fwy effeithiol. Hefyd, mae wedi galluogi partneriaid i nodi lle y bu angen iddynt recriwtio staff i fodloni'r galw am gyrsiau. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar eto i farnu pa mor effeithiol y mae'r bartneriaeth yn defnyddio'i system newydd i herio'i pherfformiad neu i farnu pa mor dda y mae'n gweithio tuag at ei blaenoriaethau strategol, yn bodloni anghenion cymunedau ac yn gwella gwerth am arian.

Mae'r bartneriaeth wedi cryfhau ei systemau ar gyfer arsylwi perfformiad athrawon ac mae'n defnyddio deilliannau'r rhain yn dda i lywio'i gwaith o gynllunio a blaenoriaethu hyfforddiant a rheoli perfformiad athrawon.

**Argymhelliad 5: Gwella'r trefniadau ar gyfer dadansoddi a chynllunio strategol i fodloni anghenion dysgwyr, gan gynnwys codi safonau llythrennedd a rhifedd**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r bartneriaeth wedi gwella'r ffordd y mae'n nodi ac yn cofnodi anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr yn ystod cyfnodau recriwtio a sefydlu. Mae hyn wedi gwella gallu tiwtoriaid i ymateb i anghenion unigol dygwyr yn gynnar, i fonitro cynnydd dysgwyr ac i gyfeirio dysgwyr yn fwy effeithiol at gyrsiau sy'n fwy addas i'w cryfderau, eu diddordebau neu eu hanghenion. Yn ogystal, mae nifer o enghreifftiau o'r bartneriaeth yn defnyddio'r wybodaeth hon yn gyflym i nodi cynnydd mewn galw am gymorth ar gyfer medrau sylfaenol ac i recriwtio staff ychwanegol i fodloni'r galw hwn, neu ddefnyddio gwirfoddolwyr yn dda i gefnogi dysgwyr.

Mae gan y coleg strategaethau llythrennedd a rhifedd defnyddiol sy'n rhoi arweiniad i'w athrawon ar sut i ganolbwyntio ar ddatblygiad llythrennedd a rhifedd dysgwyr. Mae'r strategaethau hyn yn cyfeirio'n glir at y defnydd o gynlluniau marcio, sy'n gallu gwella cysondeb yr adborth a gaiff dysgwyr, ac sy'n arwain dysgwyr wrth ddatblygu eu medrau. Fodd bynnag, ar draws y bartneriaeth, nid oes dull cyson o farcio gwaith dysgwyr neu roi adborth iddynt ar gamgymeriadau sillafu a gramadeg. Mewn ychydig achosion, nid yw tiwtoriaid yn tynnu sylw dysgwyr at gamgymeriadau mynych.

Mae partneriaid yn arfarnu cynnydd dysgwyr mewn llythrennedd a rhifedd mewn sawl ffordd. Fodd bynnag, mae diffyg dull partneriaeth cydlynol yn ei gwneud hi'n anodd i'r bartneriaeth arfarnu ei heffaith ar ddatblygiad medrau dysgwyr.

**Argymhelliad 6: Gwella systemau i asesu anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr, gan wneud yn siwr bod y dysgwyr hynny yn cael cymorth priodol, a monitro cynnydd dysgwyr sy'n derbyn cymorth**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r bartneriaeth wedi cyflwyno dull hollgynhwysol effeithiol o nodi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Bellach, mae gan yr awdurdod lleol a'r coleg systemau da ar waith i gefnogi dysgwyr. Mae enghreifftiau da o gymorth effeithiol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys addasiadau i offer TGCh a chymorth personol ehangach fel cymorth o ran gofal plant, cludiant a rheoli arian personol. Mae llawer o ddysgwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth a roddir iddynt.

Mae'r bartneriaeth wedi buddsoddi adnoddau sylweddol mewn nodi anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr, gan gynnwys creu rôl newydd i helpu i gydlynu cymorth ar draws darpariaeth yr awdurdod lleol. Yn ogystal, mae'r coleg yn cynnig gwasanaeth effeithiol i nodi a chefnogi dysgwyr ag anghenion ychwanegol.

Mae'r bartneriaeth yn dadansoddi gwybodaeth o ffurflenni ymrestru dysgwyr o fewn tair wythnos gyntaf cwrs ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i roi cymorth i'r dysgwr a'r tiwtor. Mae'r bartneriaeth wedi ychwanegu sesiwn sefydlu at y rhan fwyaf o gyrsiau, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr, gan sicrhau eu bod yn dilyn y cwrs cywir a'u bod yn gallu trafod eu gofynion unigol gyda'r tiwtor.

Mae'r bartneriaeth yn datblygu dulliau o arfarnu cymorth ychwanegol i ddysgwyr. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar eto i arfarnu effaith cymorth i ddysgwyr ar gynnydd dysgwyr ar draws y ddarpariaeth.

**Argymhelliad 7: Gwella'r trefniadau ar gyfer monitro cyfle cyfartal ac amrywiaeth**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r bartneriaeth wedi gwneud cynnydd da yn mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn. Mae gan yr awdurdod lleol a'r coleg bolisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth priodol ac mae gan y bartneriaeth gyfan bolisi cyffredinol yn cyflwyno'r gofynion ar gyfer polisïau pob un o'i haelodau.

Mae'r bartneriaeth yn monitro ymrestriadau a deilliannau dysgwyr o amrywiaeth o gefndiroedd yn effeithiol. Mae'r bartneriaeth yn casglu gwybodaeth am anableddau a gwybodaeth ddemograffig gan ei dysgwyr yn ystod prosesau ymrestru a sefydlu. Mae'r bartneriaeth yn talu sylw arbennig i wybodaeth am ddysgwyr o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig ac yn monitro'r rhesymau pam y gallai dysgwyr dynnu'n ôl o gyrsiau cyn eu iddynt eu cwblhau. Fodd bynnag, nid yw'n defnyddio'r ystod gyfan o wybodaeth sydd ar gael iddi i arfarnu effaith ei dulliau cefnogi wrth helpu'r dysgwyr hyn i barhau â'u rhaglenni dysgu.

Mae dysgwyr o gefndiroedd mwy difreintiedig, lleiafrifoedd ethnig, dynion a menywod yn cwblhau eu cyrsiau a'u cymwysterau yn llwyddiannus ar gyfraddau sydd tua'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Mae'r bartneriaeth yn ymateb yn dda i geisiadau gan ddysgwyr i ddarparu cyrsiau neu addasiadau sy'n bodloni eu hanghenion penodol. Mae enghreifftiau yn cynnwys dehonglydd iaith arwyddion i ddysgwyr â nam ar y clyw, dosbarthiadau SSIE sy'n bodloni anghenion diwylliannol dysgwyr, hyfforddiant i gynorthwywyr addysgu ar ddefnyddio llechi trwy gyfrwng y Gymraeg, a dosbarthiadau TG pwrpasol i ddysgwyr ag anableddau a nam ar y golwg. Mae'r bartneriaeth wedi sylwi ar ostyngiad diweddar yng nghyfran y dysgwyr gwrywaidd ac, i ymateb i hyn, mae'n cynnal ystod o weithgareddau i annog dynion i ymgymryd â dysgu.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a'i wella, dylai'r bartneriaeth barhau i weithio tuag at fodloni'r argymhellion arolygu nad aethpwyd i'r afael â nhw yn llawn eto.